# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 23 Ionawr 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/5420) yn:

http://senedd.tv/cy/5420

# 184(v3)

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 –3  a 5 – 8. Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 14.17

Gofynnwyd y 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Ni ddewiswyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.07

Gwnaeth David Rowlands ddatganiad am coffáu'r 140 o flynyddoedd ers Brwydr Rorke's Drift.

Gwnaeth Dawn Bowden ddatganiad am Diwrnod Cofio'r Holocost 2019 (27 Ionawr 2019).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91 yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Aelod ar Hawliau Pobl Hŷn

Dechreuodd yr eitem am 15.11

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM6940** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff Darren Millar AC gyflwyno Bil i roi effaith i'r wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd ar 14 Rhagfyr 2018 o dan Reol Sefydlog 26.91A.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 2 | 27 | 50 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Pensiynau Allied Steel and Wire

Dechreuodd yr eitem am 15.59

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM6919** Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod cyn-weithwyr Allied Steel and Wire dal heb gael gwerth llawn eu pensiynau, er gwaethaf cytundeb iawndal a gytunwyd yn 2007 gyda Llywodraeth flaenorol y DU a bron 14 mlynedd ar ôl newid yng nghyfraith y DU.

2. Yn nodi o dan cytundeb iawndal a gytunwyd yn 2007 gyda Llywodraeth flaenorol y DU, addawyd yr un driniaeth i weithwyr â gweithwyr a deiliaid cynllun pensiwn o dan y gronfa diogelu pensiynau a'r cynllun cymorth ariannol.

3. Yn nodi yn sgil newidiadau yn y gyfraith ers 2004, o dan y gronfa diogelu pensiynau a'r cynllun cymorth ariannol fod gan weithwyr yr hawl i gael eu talu hyd at 90 y cant o werth eu cyfraniad pensiwn. Fodd bynnag, nid yw cyfraniadau a dalwyd cyn 1997 wedi'u diogelu rhag chwyddiant.

4. Yn gresynu at y caledi ariannol y mae hyn wedi'i achosi i gyn-weithwyr ASW yng Nghymru.

5. Yn galw ar Lywodraeth y DU i anrhydeddu ysbryd yr ymrwymiadau a wnaeth Llywodraeth flaenorol y DU i weithwyr ASW yng Nghymru.

**Cefnogwyd gan:**

Andrew RT Davies (Canol De Cymru)

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Leanne Wood (Rhondda)

David Rees (Aberavan)

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Cyfraddau Treth Imcwm Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.35

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM6921** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol denu pobl, busnesau a buddsoddiad i Gymru fel modd o dyfu refeniw treth yng Nghymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i beidio â chodi Cyfraddau Treth Incwm Cymru am weddill y Pumed Cynulliad.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 0 | 8 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.29

## Crynodeb o Bleidleisiau

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.31

**NDM6941** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Manteisio ar ddyddiau glawog.

Sut y gellid gwneud mwy o ddefnydd o law yng Nghymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.51

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 29 Ionawr 2019**